# Papur y Porth

Rhifyn 17 Rhagfyr 2025

SLIDESMANIA.COM



## Croeso gan y Pennaeth

## Welcome from the Head

Wrth inni ddod at ddiwedd tymor prysur arall, hoffwn estyn dymuniadau cynhesaf o Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iawn i chi i gyd.

Mae wedi bod yn bleser mawr cael dathlu'r Nadolig gyda chi fel rhieni drwy eich croesawu i'n cyngherddau Nadolig – roedd yn hyfryd gweld y gymuned gyfan yn dod ynghyd. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r staff am eu gwaith diflino dros y flwyddyn ddiwethaf, ac i chi, y rhieni, am eich cefnogaeth barhaus a gwerthfawr eleni. Mae wedi bod yn dymor arbennig iawn, llawn profiadau ac atgofion gwerth chweil. Mae eich partneriaeth yn hollbwysig, ac ar y cyd gallwn barhau i gefnogi twf, lles a datblygiad ein disgyblion.

SLIDESMANIA.COM



# Croeso gan y Pennaeth

# Welcome from the Head

As we come to the end of another busy term, I would like to extend my warmest wishes of a very Merry Christmas and a Happy New Year to you all.

It has been a real pleasure to celebrate Christmas with you as parents by welcoming you to our Christmas concerts – it was wonderful to see the whole community come together. I would like to sincerely thank the staff for their tireless work over the past year, and you, the parents, for your continued and invaluable support once again this year. It has truly been a very special term, full of memorable experiences and special moments. Your partnership is invaluable, and together we can continue to support the growth, wellbeing and development of our pupils.

SLIDESMANIA.COM

# Swyddogion Diogelu'r Ysgol


# School Safeguarding Officers



## Mrs Angharad Williams

**Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn**

**Designated Safeguarding Officer**



## Mrs Elin Zych

**Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Parc y Tywyn**

**Deputy Designated Safeguarding Officer**

| | |
|---|---|
| Os oes gennych unrhyw gonsyrn am ddiogelwch disgybl, cysylltwch â'r staff hyn yn syth. | If you have any concerns regarding a pupil's safety, contact these staff immediately. |



**Yn absenoldeb y ddwy uchod, chysylltwch â:**

**If neither of the above are available, please contact:**

**Miss A.Griffiths**



**Cadeirydd y Llywodraethwyr â chyfrifoldeb am ddiogelu:**

**Governor with responsibility for safeguarding:** **Mr Mathew Davies**

DaviesM1926@Hwbcymru.net

*Os hoffech wneud cwyn am unrhyw aelod o staff, cysylltwch a'r Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr.*

If you wish to make a complaint against any member of staff, contact the Headteacher or the Chair of Governors

## Manylion cyswllt defnyddiol / Useful contact details

* Tim Atgyfeirio Canolog Ty Elwyn:
  Central Referral Team: 01554 742322
* E-bost/ E-mail:
  CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

- Tu allan i Oriau Swyddfa
  Out of Office Hours : : 0300 333 2222

*Uwch Weithiwr Cymdeithasol: Ysgolion
Senior Social Worker: Schools

* Rebecca Thomas: 01554 742369 / 07976466399
* Carmarthenshire Local Safeguarding Children's Board 01267 246544

* NSPCC Helpline – 0800 800 500
* Dyfed Powys Police – 101

**Mae diogelu yn fusnes i bawb!**

**Safeguarding is everybody's business!**

SLIDESMANIA.COM



# Gemau Ar-lein – Neges i Rieni

Mae llawer o gemau ar-lein yn caniatáu i blant sgwrsio ag eraill, gan gynnwys pobl nad ydynt yn eu hadnabod. Gall gemau hefyd amlygu plant i iaith anaddas, bwlio, pryniannau o fewn gemau a chynnwys nad yw'n briodol i'w hoedran.

Rydym yn annog rhieni i:

- Wirio oedran gemau a gosodiadau preifatrwydd / rheolaethau rhieni
- Siarad yn rheolaidd â'u plentyn am y gemau maent yn eu chwarae a phwy maent yn siarad â nhw
- Atgoffa plant i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol
- Gosod ffiniau clir ar amser sgrin

Mae fwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/e-ddiogelwch-e-safety/
A canllawiau diogelwch ar-lein gyda yr **NSPCC.**
https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/online-games/

SLIDESMANIA.COM



# Online Games Safety for Parents

Many online games allow children to chat with others, including people they do not know. Games can also expose children to unkind language, bullying, in-game purchases and content that may not be suitable for their age.

We encourage parents to:

- Check age ratings and privacy/parental controls
- Talk with children about who they play and communicate with online
- Remind children not to share personal information
- Set clear boundaries around screen time

Further advice is available on our website
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/e-ddiogelwch-e-safety/

Also look at **NSPCC online safety guidance.**
https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/online-games/

SLIDESMANIA.COM

# Presenoldeb / Attendance

Pob disgybl, ar amser, pob dydd..

Every student, on time, every day

| Canran Presenoldeb | Erbyn diwedd y flwyddyn<br>By the end of the year | Canlyniad / Outcome |
|---|---|---|
| **95-100%** | Y cyfle gorau o lwyddiant<br>***Best chance of success*** | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.<br>***Your child is taking full advantage of every learning opportunity.*** |
| **90-95%** | Colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu<br>***At least 2 weeks of learning missed*** | Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.<br>***Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.*** |
| **85-90%** | Colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu<br>***At least 4 weeks of learning missed*** | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrth ych i ddal i fyny â gwaith.<br>***Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.*** |
| **80-85%** | Colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu<br>***At least 5 ½ weeks of learning missed*** | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.<br>***Your child's poor attendance has a significant impact on learning.*** |
| Islaw/ under 80% | Colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu<br>***At least 7½ weeks of learning missed*** | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.<br>***Your child is missing out on a broad and balanced education.*** |

**PRESENOLDEB yr Ysgol BODDHAOL**

**93.4%**

**The school ATTENDANCE SATISFACTORY**

SLIDESMANIA.COM

# Cyngor Ysgol

Ers hanner tymor mis Hydref, mae Cyngor yr Ysgol wedi cynnal sesiynau Aros a Chwarae i rieni. Byddwn yn cynnal mwy yn y Flwyddyn Newydd.

Rydym wedi archebu a derbyn offer chwarae newydd ac rydym nawr yn edrych ar amserlennu gweithgareddau gyda'r offer newydd.

Fe wnaethon ni hefyd gynrychioli'r ysgol yng Ngwasanaeth Diwrnod y Cofio yn y Gerddi Coffa.

Since October half term, the School Council have held Stay and Play sessions for parents. We will be holding more in the New Year.

We have ordered and received new play equipment and are now looking at timetabling activities with the new equipment.

We also represented the school at the Remembrance Day Service at the Memorial Gardens.









SLIDESMANIA.COM


# Cyngor ECO

Mae ein Cyngor Eco wedi bod yn brysur dros y chwe mis diwethaf yn cynllunio ein Ysgol Goedwig! Mae'r plant wedi datblygu syniadau ac ystyried sut gall natur wella profiad dysgu pawb. Diolch i'n cymuned arbennig, dan arweiniad Bob a Fforwm Amgylchedd Porth Tywyn a Phorth Pembre, ynghyd â'n rhieni cefnogol, am ddod at ei gilydd i blannu 55 o goed ar dir yr ysgol. Cafwyd diwrnod ysbrydoledig o gydweithio, ac roedd pawb yn falch o gyfrannu at brosiect a fydd yn tyfu gyda'n dysgwyr. Rydym yn arbennig o falch o greu llwybr bwa o goed, a fydd yn croesawu disgyblion ac ymwelwyr wrth iddo dyfu. Mae'r profiad yn hyrwyddo cynaliadwyedd, ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymdeimlad o falchder ymhlith ein plant.

Our Eco Council has been busy over the last six months planning our Forest School! The children have developed ideas and considered how nature can improve everyone's learning experience. Thank you to our special community, led by Bob and the Burry Port and Pembrey Environment Forum, together with our supportive parents, for coming together to plant 55 trees on the school grounds. There was an inspiring day of collaboration, and everyone was proud to contribute to a project that will grow with our learners. We are particularly proud to create a dome of trees, which will welcome pupils and visitors as it grows. The experience promotes sustainability, environmental awareness and a sense of pride among our children.







SLIDESMANIA.COM

# CRhA/PTA

Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i'r CRhA anhygoel am eu holl waith caled a'u hymrwymiad, yn enwedig am gefnogi'r Ffair Nadolig. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r aelodau ymroddedig a chefnogol sy'n rhoi o'u hamser i wneud y digwyddiadau hyn yn llwyddiant mawr. Diolch o galon hefyd i bawb a ddaeth draw i'r ffair ac a'n cefnogodd – rydym wir yn gwerthfawrogi hynny.
Rydym yn falch iawn o rannu bod £1,700 wedi'i godi a bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu eitemau newydd ar gyfer yr iard -  bydd hyn o fudd i'n plant i gyd.
Diolch yn fawr unwaith eto i bawb am eich cefnogaeth barhaus – hebddoch chi, ni fyddai hyn yn bosibl! 🧡

We would like to say a huge thank you to our amazing PTA for all their hard work and dedication, especially in supporting our Christmas Fair. We are extremely grateful to the committed and supportive members who give up their time to make these events such a success. Thank you also to everyone who attended and supported the fair — your generosity is very much appreciated. We are delighted to share that £1,700 was raised, these funds will be used to purchase new items for the yard, which will directly benefit all of our children. Thank you once again for your continued support — we couldn't do it without you! 🧡

SLIDESMANIA.COM


# Meithrin




Mae'r dosbarth Meithrin wedi bod yn archwilio stori Y Bachgen Bach Toes. Gwrandawon nhw ar, ac ymuno â'r ymadroddion ailadroddus. Yn ardal y byd bach, defnyddion nhw gymeriadau a phropiau, gan ddatblygu eu hiaith a'u dychymyg wrth iddynt actio antur y Bachgen Bach Toes
i gefnogi eu datblygiad llawdrin manwl, dyluniodd y plant eu bechgyn bach toes eu hunain gan ddefnyddio creonau a phaent, gan ychwanegu manylion fel botymau a llygaid. Cawsant hefyd y cyfle i wneud eu bechgyn bach toes eu hunain gan ddefnyddio toes halen, gan rolio, siapio ac addurno eu creadigaethau.
Bu'r plant hefyd yn ymarfer eu sgiliau cyfrif trwy ychwanegu'r nifer cywir o fotymau at y bechgyn bach toes a gweithio ar adnabod a threfnu rhifolion. Maent wedi dangos brwdfrydedd a hyder cynyddol drwy gydol y gweithgareddau hyn.



The Nursery class have been exploring the story *The Gingerbread Man*. They listened to and joined in with the repeated phrases. In the small world area, the children re-enacted the tale using characters and props, developing their language and imagination as they acted out the Gingerbread Man's adventure.
To support their fine-motor development, the children designed their own gingerbread men using crayons and paints, adding details such as buttons and eyes. They also had the opportunity to make their own gingerbread men using salt dough, rolling, shaping, and decorating their creations.
The children practised counting skills by adding the correct number of buttons to gingerbread men and worked on recognising and ordering numerals. They have shown enthusiasm and growing confidence throughout these activities



SLIDESMANIA.COM

# Derbyn

Mae'r tymor hwn yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llawn dysgu cyffrous a phrofiadau cofiadwy. Yn hanner cyntaf y tymor, ein llyfr gyrru oedd *'Y Feipen Enfawr'*. Dysgodd y plant y stori gan wrando ar y stori, ei actio gyda symudiadau, ac yna ei hailadrodd yn eu geiriau eu hunain er mwyn datblygu hyder, iaith a dealltwriaeth. Cafodd y plant hefyd brofiad o baratoi llysiau i wneud cawl, dysgu am anifeiliaid fferm, ac archwilio sut mae ffermio wedi newid o *'un tro a nawr'*. Y tymor hwn, ein llyfr gyrru yw *'Y Bachgen Bach Toes'*. Rydym wedi gwneud bisgedi sinsir ein hunain, darllen a dysgu'r stori, ac hefyd gwrando ar fersiwn gerddorol gan y Gerddorfa Genedlaethol. Trafodwyd sut roedd y gerddoriaeth yn newid ar wahanol adegau yn y stori a sut roedd yn gwneud i ni deimlo a pham. Yn ogystal â'n dysgu yn y dosbarth, mae'r plant wedi mwynhau discos, gwneud addurn Nadolig ar gyfer ffair Nadolig yr ysgol, cael ymweliad gan Siôn Corn, a pherfformio'n hyfryd yn nghyngerdd geni'r ysgol. Diolch yn fawr i'r holl rieni am eich cefnogaeth barhaus y tymor hwn, a dymunwn Nadolig Llawen iawn i chi gan ddosbarth Miss John.









This term in Reception has been full of exciting learning and memorable experiences. During the first half of the term, we began with the story '*Y Feipen Enfawr' (The Enormous Turnip)*. The children learned the story by listening and then acting it out using actions and retelling it from memory which helped build confidence, language and understanding. The children also prepared vegetables to make cawl, learned about farm animals, and explored how farming has changed and evolved from 'Then and now'. This half term we have focused on the story of *The Gingerbread Man*. We made our own gingerbread biscuits, read and learned the story, and listened to a musical version by the National Orchestra. We discussed how the music changed at different points in the story and how it made us feel and why. In addition to our classroom learning, the children have enjoyed discos, made a Christmas decoration for the school Christmas fayre, had a visit from Siân Corn, and performed beautifully in the school nativity concert. Thank you to all parents for your continued support this term, and we would like to wish you a very Merry Christmas from Miss John's class.

SLIDESMANIA.COM





# Derbyn a Blwyddyn 1



Rydym wedi cael tymor prysur a llawn hwyl yn y Dosbarth! Dechreuom y tymor gyda'n stori *Y Feipen Enfawr*, a mwynhaodd y plant ailadrodd y stori o'r cof gan ddefnyddio symudiadau dwylo. Buom hefyd yn plicio, coginio a blasu cawl blasus ac yn dysgu am anifeiliaid y fferm.

Y tymor hwn, rydym wedi bod yn dysgu'r stori *Y Bachgen Bach Toes*. Defnyddiodd y plant ansoddeiriau i'w ddisgrifio, gwnaethant fisgedi, ailadrodd y stori a chasglu gwybodaeth am eu hoff straeon traddodiadol.

Yn ogystal â'n dysgu, rydym wedi mwynhau llawer o adegau arbennig gan gynnwys disgos, creu addurn ar gyfer y ffair, ymweliad cyffrous iawn gan Mrs Claus, a pherfformio yn ein cyngerdd Nadolig.



Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy gydol y tymor.

Gan bawb yn nosbarth Miss Griffiths, dymunwn Nadolig Llawen i chi! 🎄 ✨

We have had a busy and fun-filled term in class! We began the term with our story *The Enormous Turnip*, where the children loved re-telling the story from memory using hand actions. We also peeled, cooked and tasted delicious cawl and enjoyed learning all about farm animals.

This term, we have been learning the story of *The Gingerbread Man*. The children used adjectives to describe him, made their own gingerbread biscuits, re-told the story and collected information about their favourite traditional tales.

Alongside our learning, we've enjoyed lots of special moments including discos, creating decorations for the fair, a very exciting visit from Mrs Claus, and performing beautifully in our Nativity concert.

Thank you for all your support this term.

From everyone in Miss Griffiths' class, we wish you a very Merry Christmas! 🎄 ✨

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 1



Mae'r hanner tymor hwn wedi bod yn llawn hwyl, creadigrwydd a phrofiadau dysgu cyffrous. Fe wnaethon ni fwynhau darllen Y Tri Mochyn Bach, gan ddefnyddio'r stori i archwilio'r cymeriadau a sut i roi stori yn y drefn gywir. Mewn mathemateg, rydym wedi bod yn brysur yn ymchwilio i gyfaint, hyd a phwysau trwy weithgareddau ymarferol, yn ogystal â datblygu ein dealltwriaeth o arian trwy ddefnyddio darnau arian, gwneud cyfansymiau a datrys problemau yn ein siop! Rydym hefyd wedi arddangos ein doniau artistig trwy greu llusernau Nadolig hardd wedi'u peintio â llaw i'w gwerthu yn y Ffair Nadolig. Roeddem wrth ein bodd yn cymryd rhan mewn gweithdy Nadolig arbennig gyda Sian Corn, a ddaeth â digon o wenu a chyffro Nadoligaidd. I orffen y tymor, fe wnaethon ni ysgrifennu ein ryseitiau cam wrth gam ein hunain er mwyn pobi bisgedi Nadolig blasus.

Mae wedi bod yn hanner tymor hyfryd yn llawn dysgu a llawenydd. Hoffai Mrs Bryant, Miss Samuel a holl blant Blwyddyn 1 ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi!





This half term has been filled with fun, creativity and exciting learning experiences. We enjoyed reading The Three Little Pigs, using the story to explore the characters and how to put a story in the correct order. In maths, we have been busy investigating volume, length and weight through hands-on activities, as well as developing our understanding of money by using coins, making totals and solving problems in our shop! We have also showcased our artistic talents by creating beautiful hand-painted Christmas lanterns to sell at the Christmas Fair. We were delighted to take part in a special Christmas workshop with Sion Corn, which brought plenty of smiles and festive excitement. To finish the term, we wrote our own step-by-step recipes to bake delicious Christmas biscuits.

It has been a wonderful half term full of learning and joy. Mrs Bryant, Miss Samuel and all the children in Year 1 would like to wish you a very Merry Christmas and a Happy New Year!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 2







Rydym wedi cael tymor prysur ym Mlwyddyn 2. Yr hanner tymor hwn, cawsom daith theatr i weld y mythau "Y Brenin March". Fe wnaethon ni i gyd fwynhau'r sioe yn theatr y Lyric ac ers hynny rydym wedi bod yn defnyddio theatr ein dosbarth i ail-adrodd mythau a chreu ein rhai ein hunain. Rydym wedi ail-adrodd stori Llyn Llech Owain gan ddilyn ein mapiau stori. Fe wnaethon ni greu gwaith celf yn seiliedig ar waith Louise Jones o Lyn Llech Owain. Rydym wedi defnyddio offerynnau i greu synau i gyd-fynd â'r myth.

Yn ddiweddar, buom yn brysur yn dysgu ein llinellau a geiriau caneuon ar gyfer ein Gwasanaeth Nadolig ac fe wnaethon ni i gyd fwynhau creu Llusernau Siôn Corn i'w gwerthu yn y Ffair Nadolig.

Am dymor prysur!
Hoffem ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

We have had a busy term in Year 2. This half term we had a theatre trip to see the myths "Y Brenin March". We all enjoyed the show at the Lyric theatre and have since been using our class theatre to retell myths and make up our own. We have retold the story of Llyn Llech Owain following our story maps. We created art work based on the work of Louise Jones of Llyn Llech Owain. We have used instruments to create sounds to accompany the myth.
Recently we have been busy learning our lines and song words for our Christmas Service and we all enjoyed creating our Santa Lanterns to sell at the Christmas Fayre.
What a busy term!
We would like to wish you all a very Merry Christmas and a Happy New Year!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3 Mr Lang-Ford











Roedd Blwyddyn 3 yn ffodus iawn i gael sesiwn wych gyda Heulwen o Sain Ffagan. Dysgodd hi sut mae archeolegwyr yn darganfod gwybodaeth am y Celtiaid, gan gynnwys edrych ar safle cloddio lle roedd sgerbwd wedi'i ddatgelu. Roedd pawb wedi mwynhau dysgu am hanes mewn ffordd mor gyffrous!

Year 3 were very lucky to have a fantastic session with Heulwen from St Fagans. She taught them how archaeologists discover information about the Celts, including examining a dig site where a skeleton had been uncovered. Everyone really enjoyed learning about history in such an exciting way!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3 Miss Jones

Mae Blwyddyn 3 wedi mwynhau dysgu am gysawd yr haul y tymor hwn. Maent wedi cael y cyfle i ddarganfod pa blanedau sydd yng nghysawd yr haul, eu trefn o'r haul, ac wedi bod yn greadigol iawn wrth greu planed eu hunain gan ddefnyddio balwns, 'paper mâché' a phaent. Rydym wedi cael hanner tymor hynod o greadigol ac ysbrydoledig!

Year 3 have really enjoyed learning about the solar system this half term. They have had the opportunity to discover which planets are in our solar system, the order of the planets from the Sun, and even got creative by making their very own planet using balloons, paper-mâché and paint. It has been a very creative and exciting few weeks!







SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 4

Mae Blwyddyn 4 wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdy pêl-fasged yn y ganolfan newydd ym Mhentre Awel yr hanner tymor yma. Yn ystod y sesiwn, fe ddysgon nhw sgiliau newydd pwysig megis pasio, driblo a saethu'n gywir, yn ogystal â sut i weithio fel tîm ar y cwrt. Roedd y gweithdy yn gyfle gwych i'r disgyblion ddatblygu hyder mewn chwaraeon, a gwelwyd pawb yn cymryd rhan gyda brwdfrydedd. Ers hynny, maen nhw wedi parhau i ddefnyddio eu sgiliau pêl-fasged newydd yn ystod amser chwarae, gan ymarfer a chydweithio.

This term, Year 4 took part in an exciting basketball workshop at the new Pentre Awel facility. The pupils had expert coaching and learnt a range of new skills, including dribbling, passing and shooting, as well as how to apply these skills in a real game. They showed great teamwork, listened well and challenged themselves throughout the session. The children thoroughly enjoyed the experience, and it has been lovely to see them continuing to use their new skills confidently during playtimes back at school.











SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 5

Mae Blwyddyn 5 wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiwn nofio dwys dros bythefnos yn y ganolfan hamdden newydd, Pentre Awel. Er ei fod wedi bod yn flinedig, roedd yn werth chweil gan eu bod wedi gwella eu sgiliau nofio ac hyd yn oed cymryd rhan mewn sesiwn achub bywyd. Da iawn bawb!

Year 5 have been taking part in an intensive two-week swimming programme at the brand-new leisure centre, Pentre Awel. Although it was tiring, it was definitely worthwhile, as they improved their swimming skills and even took part in a life-saving session. Well done everyone!



Dyma Flwyddyn 5 yn barod i nofio yn eu pyjamas, yn dysgu sgiliau achub bywyd a sgiliau hanfodol, ac yn cael hwyl a sbri hefyd!

Here is Year 5, ready to swim in their pyjamas, learning life-saving and essential skills, and having lots of fun too!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 6


Mae Blwyddyn 6 wedi cael dechrau gwych i'r tymor yng ngwersyll Pentywyn. Bu'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd yn ffordd wych o feithrin hyder, annibyniaeth a gwytnwch wrth ymdrechu a dyfalbarhau. Roedd hefyd yn gyfle i dreulio amser gwerthfawr gyda ffrindiau mewn amgylchedd gwahanol, gan greu profiadau a fydd, yn sicr, yn aros yn y cof am byth.














Year 6 has had a fantastic start to the term at Pentywyn camp. The opportunity to take part in new activities has been a great way to develop confidence, independence and resilience through effort and perseverance. It was also a chance to spend valuable time with friends in a new environment, creating experiences that will, without doubt, be remembered forever.

SLIDESMANIA.COM

# Chwaraeon









Digon o amrywiaeth o chwaraeon yr hanner tymor yma – o rygbi cymysg Blwyddyn 5 a 6, TAG rygbi merched Blwyddyn 6 a Blwyddyn 4, nofio Blwyddyn 5, a sgiliau pêl-fasged Blwyddyn 4, i ŵyl pêl-rwyd Blwyddyn 5. Da iawn i bawb!

A great variety of sports this half term – from mixed rugby for Years 5 and 6, girls' tag rugby for Year 6 and Year 4, Year 5 swimming, and Year 4 basketball skills, to a Year 5 netball festival. Well done to everyone!












SLIDESMANIA.COM